Bannau Brycheiniog




Bannau Brycheiniog

# Cynllun Pasport Cronfeydd Dŵr

Dŵr Cymru
Welsh Water

# Croeso i gronfeydd Dŵr Cymru yn y Parc Cenedlaethol

### Y Cynllun Pasport

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog  a Dŵr Cymru Cyfyngedig, yn masnachu fel Dŵr Cymru Welsh Water, mewn cydweithrediad â Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru (SWOAPG), wedi trefnu'r Cynllun Pasport (y Cynllun) i alluogi grwpiau a drefnwyd, y bydd llawer ohonynt yn aelodau o SWOAPG, i gael mynediad at y cronfeydd dŵr canlynol ar gyfer canŵ io a chaiacio - Cronfeydd Dŵ r Pontsticill, Pentwyn, Wysg a'r Bannau (gweler y mapiau a ddarparwyd). Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gweinyddu'r Cynllun. Dylid cyflwyno unrhyw ymholiadau, ceisiadau neu syniadau i Bencadlys Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
yn Aberhonddu. Bydd deiliad Pasport yn cael gwybod am unrhyw newidiadau iddo.

Peilot blwyddyn oedd y Cynllun i ddechrau (2013) Er mwyn i'r Cynllun lwyddo a phara am gyfnod hir, mae'n hanfodol bod deiliaid Pasport yn cadw at delerau'r Cynllun fel y manylwyd arnynt yn y ddogfen hon.Trwy lofnodi'r Cytundeb Trwyddedu rydych yn cytuno i gadw at delerau'r Cynllun fel petaent yn cael eu hail-adrodd yn y Cytundeb Trwyddedu.

### Mannau Lansio a Glanio

Mae'r cronfeydd dŵr yn fwy peryglus na llynnoedd naturiol a rhaid bod yn ofalus wrth eu defnyddio. Maent yn strwythurau o waith dyn i storio a chyflenwi dŵr ac maent yn cynnwys cyfarpar uwchben y dŵr ac o dan y dŵr. Ac eithrio mewn argyfwng, defnyddiwch y mannau
lansio a glanio a ddangosir ar y mapiau or 'cronfeydd dŵr yn unig. Mae arwyddion yn nodri' rhain ar lan y llyn.

### Parcio

Gofynnir i grwpiau sy'n dal Pasport ddangos parch tuag at ddefnyddwyr eraill y meysydd parcio trwy barcio yn ofalus ac yn ystyriol. Dylai arweinydd y grŵp wirio am sbwriel ac eiddo coll cyn gadael y safle. Mare 'mapiau o'r cronfeydd dwˆ r yn dangos yr ardaloedd parcio cymeradwy. Rhaid arddangos y Pasport mewn lle gweladwy y tu mewn i ffenestr flaen cerbyd y grŵp.



## Maint y Grŵp a Nifer y Cychod

Ni chaniateir i grwpiau gynnwys mwy na 12 unigolyn, naill ai mewn canŵau agored neu gaiacau, ynghyd â'r staff hyfforddi sydd eu hangen ar y diwrnod hwnnw.

Mae'r Pasport yn awdurdodir' deiliad i fynd ag un grŵp ar un gronfa ddwˆ r ar unrhyw adeg. Bydd hyd at 15 cwch yn cael eu defnyddio ar gyfer pob un grŵp. Bydd angen Pasport ar wahân a ffi ar gyfer pob grŵp, felly os bydd 2 grŵp o'r un ganolfan/busnes/clwb/grŵp yn defnyddio'r cronfeydd dŵr ar yr un diwrnod, yna bydd angen 2 Basport.

## Diogelwch y Grŵp

Mae pob grŵp yn gyfrifol am ei ddiogelwch ei hun a dylent fod yn gallu dangos, os bydd gofyn, bod risgiau'n cael eu rheoli yn briodol. Bydd hyn yn cynnwys bod dan arweiniad hyfforddwyr canŵa chaiac profiadol sy'n meddu ar y cymwysterau addas sy'n gallu ymateb ar frys dan unrhyw amodau cyffredinol. Bydd pob canŵa chaiac yn addas ir' diben ac yn hollol nofiadwy pan fyddant yn llawn dŵr.

Bydd pawb sy'n defnyddio canŵa chaiac yn gwisgo cyfarpar diogelwch personol yn unol ag ymarfer da cyfredol. Ni chaniateir cychod diogelwch â moduron. Rhaid i bod arweinydd feddu ar dystysgrif Cymorth Cyntaf cyfredol. Yn aml bydd gan grwpiau drwydded AALS. Ar gyfer clybiau, grwpiau addysgol a gwirfoddol nad ydynt o fewn cwmpas AALS, bydd angen ri ' ymgeisydd ddangos tystiolaeth o reoli risg addas a phrofiad o arwain grwpiau sy'n bodloni Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

## Ansawdd Dŵr

Ac eithrio troi cychod drosodd yn annisgwyl neu hyfforddiant hanfodol, ni chaniateir nofio a gweithgareddau ymdrochi bwriadol. Dylai deiliaid Pasport wneud pob ymdrech i gynnal ansawdd dar' dŵr.

Dylid gwneud trefniadau toiled addas gan ddefnyddio cyfleusterau priodol ymhell or' dalgylch dŵr - maer' mapiau o'r cronfeydd dŵr yn dangos y toiledau agosaf.

## Cŵn

Er budd diogelwch y cyhoedd, nid yw Dŵr Cymru Welsh Water yn caniatáu i gŵn ddod ar safleoedd y cronfeydd dŵr oherwydd eu bod yn cael eu defnyddio fel cyflenwadau dŵr yfed.

## RhywogaethauYmledol a Threfniadau Rheoli Biolegol

Rhaid gwneud pob ymdrech rhesymol i gyfyngu'r posibilrwydd o drosglwyddo organeddau niweidiol i'r cronfeydd dŵr oherwydd eu bod yn cael eu defnyddio fel cyflenwadau dŵr yfed. Rhaid i gychod a chyfarpar sy'n dod yma o ddyfrffyrdd eraill gael eu gwirio, eu glanhau
a'u sychu yn drwyadl. Gwelwch yr adran 'Check, Clean and Dry' yn www.nonnativespecies.org.

Bydd hyn yn cyfyngu ar ledaeniad tebygol organeddau fel Cregyn Gleision Rhesog a Berdys Ffyrnig a Chimychiaid Signal sy'n achosi problemau enfawr i rywogaethau brodorol ac isadeiledd y cronfeydd dŵr. Os yw'ch cychod wedi cael eu defnyddio mewn ardal a fu'n 'heintiedig' yn y gorffennol (e.e. Bae Caerdydd neu Eglwys Nunydd),



mae'n rhaid i chi gysylltu Dŵr Cymru Welsh Water: biodiversity@dwrcymru.com i gael cyngor cyn mynd â chychod ar y cronfeydd dŵr.

### Yslafan Algaidd

Efallai y bydd ardaloedd yn cynnwys yslafan algaidd sy'n gallu bod yn wenwynig ac yn llidus a dylech gadw draw o'r rhain.

### Nentydd

Gofynnir i'r rheiny sy'n defnyddio canŵgadw ymhell o nentydd sy'n llifo i mewn i'r cronfeydd dŵr yn ystod y tymor bwrw'r grawn (Tachwedd - Ionawr) a phan mae pysgotwyr yn defnyddio'r lleoliadau (dethol) hyn.

### Ardaloedd gwaharddedig

Ni chaniateir mynediad at ardaloedd penodol o bob cronfa ddŵr - fel y dangosir ar y mapiau o'r cronfeydd dŵr. Mae'r rhain yn cynnwys:

Ardaloedd gwaharddedig er diogelwch - ardaloedd o amgylch argaeau, gorlifannau ac isadeileddau a fydd yn cael eu nodi â bwiau coch.

Ardaloedd gwaharddedig er cadwraeth - ardaloedd sy'n cael eu cadw ar gyfer bywyd gwyllt - a fydd yn cael eu nodi â bwiau gwyrdd.

### Mannau a rennir

Yn draddodiadol mae'r cronfeydd dŵr yn cael eu defnyddio ar gyfer pysgota ac mae Pontsticill yn cael ei defnyddio ar gyfer hwylio hefyd. Mae'n hanfodol bod ardal y dŵr yn cael ei rannu heb wrthdaro. Gofynnir i ddeiliaid Pasport barchu defnyddwyr eraill fel na fydd gwrthdaro rhwng defnyddwyr yn bygwth dyfodol y Cynllun.

Mae gan Glwb Hwylio Merthyr brydles ar gyfer hwylio ym Mhontsticill ac ni chaniateir i ganŵio a chaiacio effeithio ar eu gweithgareddau - cadwch ymhell i ffwrdd o gychod rasio.

### Gwirio Pasport a Gorfodi'r Cynllun

Bydd Ceidwaid Dŵr Cymru Welsh Water yn goruchwylior' Cynllun â help gan staff Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Dylech gydweithio â'u ceisiadau a chyfarwyddiadau. Ni ddylai grwpiau ddefnyddior' cronfeydd dŵr oni bai bod ganddynt Basbort dilys y mae'n rhaid iddo fod ar gael ar gais, ac yn weladwy yn ffenestr flaen prif gerbyd y grŵp. Pan na fydd grŵp yn cadw at deleraur' Pasport, yna mae Dŵr Cymru Welsh Water yn cadwr' hawl i derfynu Pasport y grŵp heb rybudd, os felly ni fydd y ffi gais am aelodaeth yn cael ei had-dalu. Gan ddibynnu ar ba mor ddifrifol y torrwyd y telerau, efallai y bydd rhybudd yn cael ei roi fel dewis amgen i derfynu Pasport fel ymateb cyntaf.

### Côd Ymddygiad

Rhaid i ddeiliaid Pasport a'u grwpiau ddilyn y Cod Glannau Dwˆ r Cenedlaethol - sydd ar gael oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog,  neu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Bydd copi yn cael ei gynnwys â'ch Pasport os bydd eich cais i Gynllun Pasport Cronfeydd Dŵr Bannau Brycheiniog yn llwyddiannus. Rhaid i ddeiliaid pasport gydymffurfio ag unrhyw is -ddeddfau perthnasol - mae'r rhain ar gael ar gyfer cronfeydd dŵr penodol oddi wrth Dŵr Cymru Welsh Water ac maent hefyd wedi'u harddangos yn y cronfeydd dŵr perthnasol.

### Cau Cronfeydd Dŵr

Gall cronfeydd dŵr gael eu gwahardd dros dro am resymau'n ymwneud â diogelwch a rhesymau gweithredol. Rhoddir gwybod am hyn ar www.breconbeacons.org a chewch eich hysbysu ar system e-bostio Rhybuddion SWOAPG. Gosodir arwyddion gan Dŵr Cymru Welsh Water wrth fannau lansior' cronfeydd dŵr i hysbysu defnyddwyr pan fyddant ar gau.



**Gwneud Cais am Basport Cronfeydd**

Dŵr Bannau Brycheiniog Mae'r Cynllun ar gael i aelodau Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru (SWOAPG) ymhlith unigolion eraill.

Mae aelodaeth SWOAPG ar gael i fusnesau sy'n darparu gweithgareddau, canolfannau addysg awyr agored a chlybiau canŵa chaiac a grwpiau addysg.

Ar hyn o bryd, mae tâl ar gyfer aelodaeth SWOAPG. Ewch i https://swoapg.com/membership am fwy o wybodaeth.

Bydd y Pasport llawn yn para am gyfnod 12 mis o1af Ebrill 2024 hyd 31ain Mawrth 2025 a bydd yn berthnasol i bob cronfa ddŵr yn y Cynllun Defnyddwyr Achlysurol
Ar gyfer defnyddwyr achlysurol, mae Pasport 7 Diwrnod ar gael unwaith bob blwyddyn - ni fydd ail Basport ar gael yn ystod yr un flwyddyn.

Rhaid i ddeiliad Pasport 7 Diwrnod hysbysu Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog cyn pob achlysur pan ddefnyddir y Pasport (i fyny at uchafswm o 7 diwrnod). Bydd nifer y diwrnodau a ddefnyddir yn cael ei cofnodi gan Dŵr Cymru. Bydd camdrin yr opsiwn yma yn arwain at waharddiad awtomatig o'r cynllun. Cysylltwch â Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog: 01874 620464.

**Ffi'r Pasport**

Ytâl am un Pasport ar gyfer un grwpamgyfnodo flwyddynyw £150 neu £190ar gyferdauBasport. Byddy Pasportyn ddilys o'r1af o Ebrill 2024 i'r31aino Fawrth 2025 lymgeisyddsyddyn ymaelodiâ'rcynllun am Basport 7 Diwrnod, bydd ffiweinydduo £70 yn daladwy afyddapara am hyd at 7 diwrnod. Osbydd DCWW yn penderfynuterfynu'r. Cynllun, byddad-daliad priodol yn cael ei wneud, oni bai bodyterfyniadyn digwy ddoherwydd bod ymgeisydd weditorriunrhyw un odelerau'r Cytundeb Trwydded a/neu'r Cynllun.

**Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus**

Rhaid i'r ymgeisydd ddangos tystiolaeth o yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus o £5 miliwn o leiaf ar gyfer y gweithgaredd arfaethedig. Mae'r sefydliad sy'n ddarparwr (e.e. clwb, canolfan, grŵp ysgol neu fusnes) yn gyfrifol am ddiogelwch ei weithgareddau a'r bobl sy'n cymryd rhan ynddynt.

**Asesiad Risg**

Rhaid cynnal asesiad risg ffurfiol ar gyfer gweithgareddau canŵio a chaiacio. Bydd Dŵr Cymru Welsh Water yn sicrhau bod ei asesiadau risg o'r safleoedd ar gael - gellir gweld y rhain ym Mhencadlys Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn Aberhonddu. Rhaid ri' ymgeisydd asesu risg gweithgareddau ar gyfer diogelwch personol a diogelwch y grŵp ac ansawdd dŵr a rheolaeth rhywogaethau ymledol. Rhaid cyflwyno copi or' asesiad(au) risg gyda'r cais am y Pasport.




WERNER

FFURFLEN GAIS

# Pasport Cronfeydd Dŵr

Enw eich sefydliad: ..............................................................................................

Aelod SWOAPG: ..............................................................................................

Cyfeiriad: ..............................................................................................

Ffôn: ........................................................................ Ffôn symudol:
..............................................................................................

Ebost: ..............................................................................................

Unigolyn cyswllt a'i swydd yn y sefydliad: ..............................................................................................

A gynhyrchwyd asesiadau risg: Do / Naddo
Atodwch yr Asesiad(au) risg.

Trwydded AALS (*) yn cwmpasu canwˆ io a/neu gaiacio: Do / Naddo
(*)Atodwch gopi, neu darparwch achrediad amgen os nad yw AALS yn berthnasol e.e. Clwb Canŵio os felly mae aelodaeth Canoe Wales/ BCU neu glwb cyfwerth yn briodol, â manylion rheolaeth risg, cymwysterau a phrofiad arweinwyr os nad yw AALS yn berthnasol.

Tâl wedi'i gynnwys (rhowch gylch o amgylch y swm priodol):

| | |
|---|---|
| Un Pasport blwyddyn | £150 |
| Dau Basport blwyddyn: | £190 |
| Pasport 7 Diwrnod: | £70 |

Sieciau yn daladwy i:
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus (o leiaf £5 miliwn): Do / Naddo
Atodwch gopi:

Rhif y Dystysgrif: ........................................................ Manylion yr Yswirwyr:........................................................


Rwy'n cytuno i delerau'r Cynllun Pasport fel y manylwyd arnynt yn y ddogfen hon.

Llofnod: ........................................................ Enw mewn priflythrennau: ........................................................


Swydd: ........................................................ Dyddiad: ........................................................

Dychwelwch y ffurflen wedi'i llenwi a'r tâl i:
Cynllun Pasport Cronfeydd Dŵr Bannau Brycheiniog,
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog,
Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian,
Aberhonddu, Powys. LD3 7HP.


# CRONFA DDŴR PENTWYN




# CRONFA DDŴR PONTSTICILL



# CRONFA DDŴR Y BANNAU



# CRONFA DDŴR WYSG



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Pob llun trwy garedigrwydd Gabriella Karney..